Chwarae Teg®
Solutions | Atebion

# Rheoli gweithio o bell

## Diben

Dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, mae'r ffordd rydym yn byw a gweithio wedi gweddnewid - ond weithiau mae polisïau ac arferion cyflogwyr wedi bod yn araf yn addasu i'r newid. Mae gweithio hyblyg a gweithio o bell ar gynnydd; mae gan dros 96% o gyflogwyr bolisiau gweithio'n hyblyg. Bydd y cwrs hwn yn eich arfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i reoli, ysgogi a chyfathrebu'n effeithiol â'ch gweithlu o bell.

## Sut fyddwch chi'n elwa

Gall mwy o symudedd a gweithio o bell arwain at gynhyrchiant gwell, mwy o fodlonrwydd cwsmeriaid, arbed costau a llai o absenoldeb. Mae rhoi cyfle i staff weithio gartref yn cyfyngu ar lygredd a gwastraff, ac felly'n helpu i leihau ôl troed carbon y sefydliad.

Bydd y gweithdy'n rhoi atebion go iawn i chi eu defnyddio. Byddwch yn gweithio ar dasgau ymarferol ac astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth o'r cyfle a'r her sy'n gysylltiedig â gweithio o bell, cwestiynau'n ymwneud â rheoli staff sy'n gweithio gartref neu o bell a chynghorion ymarferol ar sut i fynd i'r afael â'r cyfleoedd, yr heriau a'r materion hyn.

## Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

- Adnabod a chymhwyso technegau ar gyfer rheoli eich hunan ac eraill yn effeithiol
- Defnyddio strategaethau cyfathrebu penodol ar gyfer gweithio gartref neu o bell
- Rheoli perfformiad yn ôl canlyniadau
- Cefnogi ac ysgogi gweithwyr o bell
- Adeiladu ar gyfleoedd a gweithredu atebion i heriau

**Hyd**

1 diwrnod

**Ffi**

£185 + TAW y pen

Disgownt o 10% am ail gynrychiolydd o'r un sefydliad

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â atebion@chwaraeteg.com neu galwch 029 2047 8900 neu ewch i'r wefan http://www.cymraeg.chwaraeteg.com/atebion